# Grŵp ........................................................... y Gymuned

Mae 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r grŵp uchod gael ei ffurfio ac erbyn hyn mae tua 50 o bobl yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i helpu'n cymuned ac i roi cymorth i bobl lai ffodus.

Mae mwy a mwy o sialensiau yn ein hwynebu ni drwy'r amser gan fod gan y Cyngor lai o arian i wario ar brojectau cymunedol. Rhaid i ni ymateb i'r sialensiau hyn. Felly, rydym yn chwilio am bobl newydd i ymuno â ni.

Dyma rai o'r projectau rydym wedi bod yn ymwneud â nhw yn ystod y misoedd diwethaf:

- plannu bylbiau'r gwanwyn yn y parc ac mewn potiau ar y Sgwâr
- codi arian er mwyn prynu siglenni i'r plant lleiaf yn y parc - bydd y rhain yn cael eu gosod o fewn y pythefnos nesaf
- trefnu ymweliadau ag ysgolion i sôn am ofalu am ein cymuned
- gosod biniau sbwriel ar y ffordd sy'n arwain at yr ysgol uwchradd
- cludo pobl hŷn i apwyntiadau yn yr ysbyty.

Petaech chi'n ymuno â ni, gallech chi ddewis pa brojectau yr hoffech chi fod yn rhan ohonynt. Rydym yn sylweddoli bod pawb yn brysur y dyddiau hyn a bod gan y rhan fwyaf ohonom deuluoedd i ofalu amdanynt, ond byddai awr neu ddwy y mis, hyd yn oed, yn help mawr i'r gymuned. Cofiwch hefyd fod croeso mawr i deuluoedd - yn oedolion, pobl ifanc a phlant - gan fod digon o waith amrywiol i bob oed.

Rydym wedi trefnu ymgyrch arbennig ar gyfer Dydd Sadwrn, 10 Ebrill, sef **Ymgyrch Codi Sbwriel**, a byddem wrth ein bodd petaech chi'n gallu ymuno â ni. Byddai hyn yn gyfle da i chi ddod i adnabod pobl eraill sydd eisoes yn gweithio gyda ni, yn enwedig gan ein bod wedi trefnu pryd o fwyd mewn tŷ bwyta lleol ar gyfer y noson honno - i'r rhai sydd eisiau dod.

Os hoffech chi ymuno â ni ar yr **Ymgyrch Codi Sbwriel**, dyma'r manylion:

| | |
|---|---|
| **Pryd:** | Dydd Sadwrn, 10 Ebrill |
| **Amser:** | 9.00-12-30 (neu awr neu ddwy yn ystod y cyfnod hwn os yw hynny'n well i chi) |
| **Cyfarfod:** | Parc y Fro |
| | Byddwn yn rhoi siacedi melyn arbennig, bagiau pwrpasol a theclyn i godi sbwriel i chi. A wnewch chi ddod â'ch menig eich hun os gwelwch yn dda?. |
| | Bydd pawb yn gweithio mewn parau mewn mannau penodol yn y dref. |



Os hoffech chi ddod i'r pryd o fwyd fin nos, rhowch wybod i ni ar y diwrnod.

**Dewch yn llu i gefnogi'r ardal!**

Cofiwch ailgylchu'r daflen hon os gwelwch yn dda.